





Cymun Bendigaid ar Gân
Y Deunawfed Sul wedi'r Drindod
8 Hydref 2023 am 9.15am




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau — ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrandao ar
ddarlenniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliath inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hgyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwâr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgriwiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Fy enaid, deffro di
ar dân i foli Duw,
bendithia'i enw am ei ddawn,
dy ddyled gyfiawn yw.

Yr hwn sy'n maddeu'th fai,
ac yn iachau dy glwy',
gwaredu'th fywyd, ac amlhau
ei ddoniau'n fwy na mwy.

Diwallu d'angenrhaid
bob dydd heb baid y bu,
corona'th oes o hyd â hedd
ei râd drugaredd gu.



**Trugarog, ac yn llawn
o ras a dawn yw Duw:
a pharod iawn i faddeu bai
i'r rhai sy'n ddrwg eu rhyw.**

Geiriau

Gwilym Hiraethog (William Rees; 1802-1883)

Cerddoriaeth | "Carlisle"

Charles Lockhart (1745-1815)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Gwna imi gerdded yn llwybr dy orchmynion, oherwydd yr wyf yn ymhyfrydu ynddo."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni â'n gelwir i ddilyn ôl-troed santeiddrwydd,

ni sy'n anwadi ar y daith,

ni sydd angen buchedd y saint yn ganllaw,
a'u gweddïau'n gynhaliaeth gyson.

Dad nefol,

**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**

**ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.**

Amen.

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyich,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Parhawn ar ein traed

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

Cerddoriaeth

Missa L'ora passa, Lodovico Grossi da Viadana (c.1560-1627)

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

O Dduw, sy'n amlygu dy allu anfeidrol yn bennaf trwy ddangos trugaredd a thosturi: dyro inni'n drugarog y fath fesur o'th ras, fel y bo i ni, gan redeg ar hyd ffordd dy orchmynion, fwynhau dy addewidion grasol, a chyfranogi o'th drysor nefol; trwy Iesu Grist ein Gwardedwr.

Amen.

Eisteddwn



Gair

Salmyddiaeth



Y Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.

**R: Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.**

O Dduw, dysg fi yn ffordd dy ddeddfau, ac o'i chadw fe gaf
wobr.

Rho imi ddeall, er mwyn imi ufuddhau i'th gyfraith a'i chadw â'm
holl galon;

**R: Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.**

Gwna imi gerdded yn llwybr dy orchmynion, oherwydd yr wyf
yn ymhyfrydu ynddo.

Tro fy nghalon at dy farnedigaethau yn hytrach nag at elw;

**R: Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.**

Tro ymaith fy llygaid rhag gweld gwagedd; adfywia fi â'th air.

Cyflawna i'th was yr addewid a roddaist i'r rhai sy'n dy ofni.

**R: Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.**

Tro ymaith y gwaradwydd yr wyf yn ei ofni, oherwydd y mae dy
farnau'n dda.

Yr wyf yn dyheu am dy ofynion; adfywia fi â'th gyfiawnder.

**R: Gwna i mi rodio ffordd d'orchmynion,
maent i mi'n hyfrydwch calon.**

Salm 119:33-40
Cerddoriaeth
Simon Ogdon



Darlleniad

Darlleniad o Lythyr Cyntaf Cyffredinol Sant Ioan.

Garedigion: Pwy bynnag sy'n cyffesu mai lesu yw Mab Duw, y mae Duw yn aros ynddynt, a hwythau yn Nuw. Felly yr ydym ni wedi dod i adnabod a chredu'r cariad sydd gan Dduw tuag atom. Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddynt hwythau. Yn hyn y mae cariad wedi cael ei berffeithio ynom: bod gennym hyder yn Nydd y Farn, oherwydd fel y mae Duw, felly yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn. Nid oes ofn mewn cariad, ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn; y mae a wnelo ofn â chosb, ac nid yw'r rhai sy'n ofni wedi eu perffeithio mewn cariad. Yr ydym ni'n caru, am i Dduw yn gyntaf ein caru ni. Os dywed rhywun, "Rwy'n caru Duw", a hwythau'n casáu eu cydaelod, y maent gelwyddog; oherwydd ni all neb nad yw'n caru cydaelod y maent wedi eu gweld, garu'r Duw anweledig. A dyma'r gorchymyn sydd gennym oddi wrth Dduw: bod i'r sawl sy'n caru Duw garu eu cydaelod hefyd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

1 Ioan 4:15-21

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. **R** Haleliwia. Haleliwia.

Haleliwia. **Y** Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddynt hwythau.

R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. **Y** Câr y Sanctaidd Un dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth. **R** Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Marc.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Daeth un o'r ysgrifenyddion at Iesu, wedi eu clywed yn dadlau, ac yn gweld ei fod wedi eu hateb yn dda, a gofynnodd iddo, "Prun yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" Atebodd Iesu, "Y cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, y Sanctaidd Un ein Duw yw'r unig Dduw, a châr y Sanctaidd Un dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." Dywedodd yr ysgrifennydd wrtho, "Da y dywedaist, Athro; gwir mai un ydyw Duw, ac nad oes Duw arall ond y Sanctaidd Un. Ac y mae caru Duw â'r holl galon ac â'r holl ddeall ac â'r holl nerth, a charu dy gymydog fel ti dy hun, yn rhagorach na'r holl boethoffrymau a'r aberthau." A phan welodd Iesu ei fod wedi ateb yn feddylgar, dywedodd wrtho, "Nid wyt ymhell oddi wrth deyrnas Dduw." Ac ni feiddiai neb ei holi ddim mwy.

Dyma Efengyl ein Gwardedwr.

Moliant i ti, O Grist.

Marc 12:28-34

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres "Pryd y'th welsom di?"

Crist yn y Deml

Yng Nghrist daeth Duw'n Ymgnewdoledig – ei osod mewn preseb, ei gamre hyd heolydd Galilea, dan hoelion ar Groes, yn atgyfodedig yn ei gnawd. Y Crist Ymgnewdoledig yw'n datguddiad byw o Dduw'r Creawdwr, cynhaliwr gweithredol a pharhaus yr holl Greadigaeth, popeth sydd. Mae lleoedd a thirweddau'r Cread yn chwarae rhan bwysig yn yr Ysgrhythur ac yn y dychymyg Cristnogol, yn union fel y mae ein cymunedau a'n cynefinoedd ni'n rhoi cig a gwaed i ffydd, gobaith a chariad ein bywydau beunyddiol ninnau. Mae'r gyfres bregethu hon yn arsylwi ar rai o'r lleoedd a'r cynefinoedd hynny lle gwelwn Dduw ar waith, ac sy'n parhau i ddatgelu i ni ddirgeledd "Duw gyda ni."

Y Canon dros Fywyd Cynulledifaol

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Ar derfyn y Credo, eisteddwn

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros yr Eglwys, a grëwyd er dy ogoniant. Gweddiwn dros Andrew ein Heskob; dros weinidogaeth feunyddiol Eglwys y Groes a'n Cadeirlan; a thros bawb a ddaw'n bererinion dros y trothwy'r wythnos yma. Estyn i ni dy iachawdwriaeth a'th dwf.

✠ O Dduw, yn dy drugaredd,
✠ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros y byd, a grëwyd gan dy gariad. Gweddiwn yn arbennig dros bobl Wcraïn yn dyheu am gyfiawnder a heddwch; dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i newid hinsawdd a thywydd eithafol; ac am ein galweddiaeth ni i ofalu am fawredd dy greadigaeth. Estyn i ni dy dangnefedd a'th gariad gweddnewidiol.

Ŵ O Dduw, yn dy drugaredd,

R̄ Gwrando ein gweddi.

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros dy holl bobl, wedi'u creu ar dy ddelw, ac yn enwedig dros yr unig, y galarus, a'r claf, ac, o'n cymuned ni, dros [...]. Anadla anadl einioes arnynt a dwg iddynt dy drugaredd a'th ras.

Ŵ O Dduw, yn dy drugaredd,

R̄ Gwrando ein gweddi.

Dduw Sanctaidd, gweddiwn dros y rhai yr ydym yn eu caru ond na'u gwelwn mwyach. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi marw yn ddiweddar, yn eu plith [...]; a thros [...] y cedwir eu gŵyl goffa'r dyddiau hyn.

Ŵ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R̄ A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Ŵ ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R̄ A chyfodi mewn gogoniant.

Gan uno'n gweddi â gweddiâu Mair Mam Duw, Deiniol, Seiriol, Cadfan a holl Saint Enlli, cyd-weddiwn:


Ŵ Dad trugarog,

**R̄ Derbyn y gweddiâu hyn
er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.
Amen.**

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

Cymun

Emyn



Addolwn Dduw, ein Harglwydd mawr,
mewn parch a chariad yma nawr;
y Tri yn Un a'r Un yn Dri
yw'r Arglwydd a addolwn ni.

Mae ganddo i'n gwasanaeth hawl,
a gweddus inni ganu mawl;
down ger ei fron a llafar gân,
rhown iddo glod o galon lân.

Ei orsedd sydd yn nef y nef,
sanctaidd a chyfiawn ydyw ef;
i ddig y mae'n hwyrfrydig iawn,
fe rydd o'i ras drugaredd lawn.

Y mae'i weithredoedd ef bob un
yn ei glodfori yn gytûn;
ei fawr gadernid draethant hwy,
a'i enw a folwn ninnau mwy.

Mawr yw a chanmoladwy iawn,
cyduno i'w ddyrchafu wnawn;
bendithiwn byth ei enw ef,
a chaiff y mawl holl ddyddiau'r nef.

Geiriau

Gwyllt y Mynydd (William Hugh Evans, 1831-1909)

Cerddoriaeth | "Samson"

Georg Friedrich Händel (1685-1759)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Gan mai ef yw ein harchoffeiriad mawr, a'n rhyddhaodd o'n pechodau ac a'n gwnaeth yn offeiriadaeth frenhinol yn dy wasanaethu di, ein Duw a'n Tad.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctus, sanctus, sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt coeli et terra gloria tua. Hosanna in excelsis.

✠ Benedictus qui venit in Nomine Domini. Hosanna in excelsis.

Cyfieithiad

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf. ✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn Enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Missa L'houra passa, Lodovico Grossi da Viadana (c.1560-1627)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

Bu farw Crist.
Atgyfododd Crist.
Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Rwyt ti, O Dduw, yn gweu ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirel Gorff dy Fab; ei Gorff torredig, gogoneddus yn gyflawn mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis.

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, miserere nobis.

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi, dona nobis pacem.

Cyfieithiad

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Missa L'ora passa, Lodovico Grossi da Viadana (c.1560-1627)

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol
ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Os cherwch fi, cedwch fy ngorchmynion. A mi a weddi'af ar y
Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall. Fel yr arhoso gyda
chwi yn dragwyddol; Yspryd y gwirionedd.

Geiriau

Ioan 14:15-17

Cerddoriaeth

Thomas Tallis (c.1505-1585)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn





Dy garu di, O Dduw,
 dy garu di,
 yw 'ngweddi tra bwyf byw,
 dy garu di;
 daearol yw fy mryd:
 O dyro nerth o hyd,
 a mwy o ras o hyd
 i'th garu di.

Fy olaf weddi wan
 fo atat ti,
 am gael fy nwyn i'r lan
 i'th gartref di;
 pan fwyf yn gado'r byd,
 O dal fi'n gryf o hyd
 i'th garu di o hyd,
 i'th garu di.

Geiriau

Wacyn Wyn (Watkin Hezekiah Williams, 1844-1905)

Cerddoriaeth | "Builth"

David Jenkins (1848-1915)

Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Bydded i Dduw, ffynhonnell pob daioni, inni'n lwybr a chydymaith ar y daith, er mwyn inni ofalu am greadigaeth dda Duw a dwyn ffrwyth cyfiawnder yn ein buchedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Offrymddarn yn C fwyaf, Francis Linley (c.1771-1800)

Yr wythnos

Heddiw | Today

3.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Gwasanaeth Hwyrwl yn D | Evening
Service in D, Dyson; God so loved
the world, Stainer; Tocata | Toccata,
Dubois

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00am Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral
Evensong

Ein gweddi

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; John
Watkin Jones; Bill Lovelock; Mary
Davies; Giuseppina de Giovanni;
Margaret Tromans; John Prysor-
Jones, offeiriad; Michele; John
Parry Jones; Ponnambalam; Sekar;
Kuppusamy; Jason Buckley

A fu farw'n Buffy Jones; Laura
Williams; Anthony Griffiths; Heidi
Williams; Brian; Ingrid Baggs; Elfyn
Roberts

Gŵyl goffa —



TA RAN NON

Gŵyl Cred a'r
Celfyddydau
A Festival of
Religion and
the Arts
12-15.10.2023

Yn y flwyddyn 525, daeth Deiniol Sant i lan yr afon Tarannon, rhwng y mynyddoedd a'r môr, ac ymgartrefu yno, gan sefydlu cymuned a ddaeth yn Gadeirlan, ac sydd yn ffynnu hyd heddiw.

Tarannon yw Gŵyl Cred a'r Celfyddydau newydd y Gadeirlan – pedwar diwrnod byrlymus ym mis Hydref sy'n gyforiog o gerddoriaeth, barddoniaeth, celf, hanes, addoliad, trafodaeth a sgwrs yng nghanol Bangor.

In the year 525, Saint Deiniol came to the banks of the river Tarannon, between Snowdonia and the sea, and settled there, founding a community that became a Cathedral, and that flourishes to this day.

Tarannon is the Cathedral's new Festival of Religion and the Arts – a bustling four days in October teeming with music, poetry, visual art, history, worship, discussion and conversation in the heart of Bangor.

12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY

11.15am

**Mi Sy'n Ifanc Ffôl • When We
Were Very Young**

Datganiad o ganeuon ar gyfer plant o bob oed • A recital by WNO singers of Milne & Carroll songs for for children of all ages

Cantorion o Opera Cenedlaethol Cymru, ynghyd â Chorwsfeistr WNO Freddie Brown, yn canu rhai o osodiadau Harold Fraser-Simson o ganeuon a cherddi A. A. Milne a Lewis Carroll

Singers from the WNO, accompanied by WNO Chorus Master Freddie Brown, singing some of Harold Fraser-Simson's settings of A. A. Milne and Lewis Carroll songs and poems.

12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY



Yr Athro • Prof. Helen Wilcox

5.30pm

**Gosber ar Gân yr Ŵyl •
Festival Choral Evensong**

**Yr Athro Helen Wilcox yn pregethu
The Prof. Helen Wilcox preaching**

Ymatebion | Responses, Rose;
Gwasanaeth Hwyrrol yn A | Evening
Service in A, Stanford; Great is the
Lord, Elgar; Allegro maestoso o
Sonata yn G fwyaf | from Sonata in G
major, Elgar



12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY

7.00pm

**Darlith yr Ŵyl • Festival
Lecture**

**Dafydd ym Mangor – Dafydd
ap Gwilym a Chadeirlan
Deiniol Sant • The Bard in
Bangor – Dafydd ap Gwilym
and Saint Deiniol's Cathedral**

Cyswllt Dafydd ap Gwilym
â'r Gadeirlan gyda Sara Elin
Roberts • Exploring Dafydd
ap Gwilym's links to the
Cathedral with Sara Elin
Roberts

Roedd Dafydd ap Gwilym yn un o brif feirdd Ewrop y Canol Oesoedd. Ac yntau'n enwog ei ganu i ferched a byd natur, priodolir iddo gorpws enfawr o farddoniaeth hardd a chymhleth. Ymhlith gweithiau llai adnabyddus Dafydd cawn gasgliad o gerddi sy'n cyfeirio at ei ymweliad â Chadeirlan Deiniol Sant ym Mangor. Natur a chyd-destun ei gerddi a'i gynefindra â'r Gadeirlan fydd testun darlith Dr Roberts.

Dafydd ap Gwilym was one of medieval Europe's finest poets. Famed for his poems to women and nature, a huge corpus of complex but beautiful poetry is attributed to him. Among the lesser-known works by Dafydd we find a group of poems that reference his visit to Saint Deiniol's Cathedral in Bangor. The nature and context of his poems and his familiarity with the Cathedral will be subject of Dr Roberts's lecture.



**Tocynnau
Tickets
£3/£0**





13 HYDREF DYDD
GWENER
OCTOBER FRIDAY

4.00pm-6.00pm
Blasu gwin a whisgi • Wine & whisky tasting

Blasu gwin a whisgi gyda'n ffrindiau o Majestic a Pendederyn • Wine and whisky tasting with our friends from Majestic & Penderyn Distillery

Dr Sara Elin Roberts

Hanesydd y Canol Oesoedd yw Sara Elin Roberts, yn arbenigo yng nghyfraith, llenyddiaeth a diwylliant Cymru a'r Mers o'r ddeuddegfed hyd y bymthegfed ganrif. Hi yw'r prif awdurdod ar gyfraith Cymru'r Canol Oesoedd, fu'n faes ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen, tra'i bod hefyd wedi gweithio'n helaeth ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, gan gynnwys fel golygydd nifer o'i gerddi, a bu'n rhan o'r tîm a gynhyrchodd y casgliad newydd o'i waith a geir yn dafyddapgwilym.net ac a gyhoeddwyd yn *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (2010).

Sara Elin Roberts is a medievalist specialising in the law, literature and culture of Wales and the March from the twelfth to the fifteenth centuries. An acknowledged expert on the law of medieval Wales, holding a D.Phil. from the University of Oxford, she has also worked extensively on the poetry of Dafydd ap Gwilym, including as the editor of several of his poems, and was part of the team producing the new edition of his work found at dafyddapgwilym.net and published in *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (2010).

Traddodir y ddarlith yn Saesneg, gyda chyfeiriadau niferus i destun Cymraeg Canol gwreiddiol y bardd.

The lecture will be delivered in English, with references to Dafydd ap Gwilym's original Middle Welsh texts.

Er mwyn sicrhau bod eich gwin yn dderbyniol a'ch wisgi'n Gymreig, beth am ymuno â ni ar gyfer blasu gwin a whisgi ein gŵyl. Bydd detholiad o winoedd a wisgi yn cael eu gosod allan i chi eu blasu yn eich hamdden, a bydd ein cyfeillion arbenigol o Majestic Wine ar Ffordd Caernarfon wrth law i ateb eich cwestiynau.

To ensure your wine is decent and your whisky Welsh, why not join us for our festival's wine and whisky tasting. A selection of wines and whisky will be laid out for you to taste at your leisure, and our expert friends from Majestic Wine on the Caernarfon Road will be at hand to answer your questions.



**Tocynnau
Tickets
£5**

13 HYDREF GWENER
OCTOBER FRIDAY



Gareth Dafydd Morris • Tenor

7.30pm
Tawel yw'r Môr • The Sea is
Calm Tonight

Cyngerdd o ganeuon ar gyfer tenor, bariton a phedwarawd llinynnol • A concert of songs for tenor, baritone and string quartet

Bydd pedwarawd llinynnol o Gerddorfa WNO yn ymuno â'r tenor Gareth Dafydd Morris a'r bariton Philip Lloyd-Evans i berfformio cyngerdd cyfoethog a myfyriol o ganeuon gan Warlock, Butterworth, Vaughan Williams, Barber a mwy.

The tenor Gareth Dafydd Morris and the baritone Philip Lloyd-Evans are joined by a string quartet from the WNO Orchestra for a rich and reflective concert of songs by Warlock, Butterworth, Vaughan Williams, Barber and more.



Tocynnau
Tickets
£12/£5



14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



Esyllt Maelor

2.45pm
**Cerddi, Cred, Cymru • Bards,
Belief, Belonging**

Pedwar bardd – Siôn Aled, Sian Northey, Esyllt Maelor ac Iestyn Tyne – ar ganu ysbrydol yn y Gymraeg • Four bards – Siôn Aled, Sian Northey, Esyllt Maelor ac Iestyn Tyne – reflect on the power of the Welsh poetic voice addressing the spiritual

Bydd hon yn sesiwn iaith Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

This will be a Welsh-language session, with simultaneous translation facilities.



**Tocynnau
Tickets
£3/£0**

14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



Rhun ap Iorwerth

4.45pm
**Sgwrs â Rhun ap Iorwerth
• Rhun ap Iorwerth in
conversation**

Arweinydd newydd Plaid Cymru ar ei alwedigaeth a'i weledigaeth • The new leader of Plaid Cymru on vocation and vision

Bydd hon yn sesiwn ddwyieithog, gyda chyfle i gyfranwyr siarad yn Gymraeg a Saesneg, a gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

This will be a bilingual session, with the opportunity for contributors to speak in Welsh and English, and with simultaneous translation facilities.



**Tocynnau
Tickets
£3/£0**

14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



7.30pm
Cenwch Lafar Glod • Make a Joyful Noise

500 mlynedd o gerddoriaeth gysegredig Gymreig yng nghwmni Côr Cadeirlan Deiniol Sant dan arweiniad Joe Cooper • Explore 500 years of Welsh sacred music with the Choir of Saint Deiniol's Cathedral, conducted by Joe Cooper

Mae Côr Cadeirlan Sant Deiniol yn dathlu dros 500 mlynedd o gerddoriaeth gysegredig Gymreig. Bydd taith sy'n dechrau gyda cherddoriaeth gan Thomas Tomkins yn ein harwain at gyfansoddiadau gan William Mathias, ac yn parhau i gyrraedd ein dyddiau ni, wrth i'r Côr berfformio comisiynau diweddar gan y Gadeirlan ei hun, gan gynnwys cyfansoddiadau gan Gareth Glyn, Alex Mills, Joe Cooper a Simon Ogdon.

The Choir of Saint Deiniol's Cathedral celebrates more than 500 years of Welsh sacred music. A journey beginning with music by Thomas Tomkins will lead up to compositions by William Mathias, and reaches the present day, as the Choir performs recent Cathedral commissions, including works by Gareth Glyn, Alex Mills, Joe Cooper and Simon Ogdon.



Tocynnau
Tickets
£12/£5

15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY



15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses,
Leighton; Gwasanaeth Caerloyw
| Gloucester Service, Howells;
Jubilate Deo, Howells; Mawlgan |
Paeon, Howells

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân yr Ŵyl

Yr Is-Ddeon yn pregethu
ar y thema **Crist yn y ddinas**
Cymun Gwynedd | Gwynedd
Service, Cooper; Dyfroedd o'r
Graig, Cooper; Arweingerdd, Ives

15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY

11.00am Festival Choral Holy Eucharist

The Minor Canon preaching
on the theme **Christ in the city**
Spatzenmesse, Mozart; The
Heavens are Telling, Haydn; Finale
from Symphony No. 29, Mozart



Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletsydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r lliθοedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr mae manylyn o lithograff o olyga tua Chaersalem gan David Roberts (1796-1864).

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Y Parchedigaf Andrew T. G. John
Bishop & Archbishop of Wales
The Most Revd Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean
Canon Siôn B. E. Rhys Evans
sionrhys Evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fwyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
Canon Tracy Jones
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk
Darpar Gaplan Prifysgol a Chymuned | University
& Community Chaplain Designate
Y Parchg | The Revd Neville Naidoo

Is-Ganon | Minor Canon
Y Parchg | The Revd Josie Godfrey
josiegodfrey@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
Joe Cooper
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
Martin Brown
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
Simon Taylor
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
Kelly Edwards
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator
Sam Jones
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus
Canon David Thomas Morris
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus
Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones,
y Tra Parchg Athro | the Very Revd Prof.
Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter
Kaye

Darlleneydd | Reader
Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaiθ a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

